


Offrwm yr Adfent 2018
2-24 Rhagfyr

Materion Ymarferol ar gyfer Offrwm yr Adfent

Cyhoeddusrwydd a pharatoi ar gyfer eich gwasanaeth Offrwm yr Adfent

- Cofiwch gynnwys cyhoeddiad am Wasanaeth Offrwm yr Adfent yng nghyhoeddiadau eich eglwys a'ch cylchdaith ac mewn cylchlythrau.
- Gosodwch eich poster Offrwm yr Adfent (ar gael ar wefan Methodist Publishing www.mph.org.uk – gweler 'Cynllunio eich gwasanaeth') ar yr hysbysfwrdd neu mewn ffenestr er mwyn annog aelodau'r eglwys a phobl eraill i ddod.
- Rhowch wybod pryd y cynhelir eich Gwasanaeth pan fyddwch yn dosbarthu amlenni casglu Offrwm yr Adfent.
- Anogwch bobl i ymuno yn ein sgwrs am yr Adfent ar y cyfryngau cymdeithasol:

 @MethodistGB

 Methodist Church

** Mae defnyddio'r llyfr talu i mewn sydd â rhif Offrwm yr Adfent yn helpu'r Adran Gyllid i wybod pa roddion sy'n dod trwy Offrwm yr Adfent ac mae'n sicrhau bod y rhoddion hynny'n cael eu dyrannu i'ch cylchdaith.*

Cyfarwyddiadau ariannol ar gyfer eich Gwasanaeth Offrwm yr Adfent

A fyddwch cystal â darllen y cyfarwyddiadau hyn a'u rhoi i Drysorydd eich Eglwys a'r Ysgrifennydd Cymorth Rhodd. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn cael eu rhoi i Drysorydd Cronfa Cenhadaeth ym Mhrydain yn y Gylchdaith.

Ar y dudalen nesaf fe amlinellir dwy ffordd o gasglu Cymorth Rhodd ac anfon rhoddion i mewn gan ddefnyddio amlenni casglu Offrwm yr Adfent. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i gasgliadau eglwysi unigol.

Sylweddolwn, fodd bynnag, fod rhai Gwasanaethau Offrwm yr Adfent yn cael eu cynnal ar gyfer cylchdaith gyfan; os felly, gall eglwysi lleol wneud casgliad ar wahân gyda swyddogion cylchdeithiol yn eu derbyn wedyn. Byddem yn falch iawn o allu dathlu canlyniad casgliadau'r Adfent hwn gyda'r holl eglwysi. I'n helpu i wneud hyn, gofynnwch os gwelwch yn dda i drysoryddion eich eglwys neu'r gylchdaith anfon eich rhoddion at Drysorydd Cronfa'r Cylchdeithiau, Cenhadaeth ym Mhrydain fel y gellir bancio eich rhoddion gan ddefnyddio llyfr talu i mewn Offrwm yr Adfent.* Os nad oes gan eich cylchdaith Drysorydd ar gyfer y Gronfa, anfonwch lythyr neu e-bost yn rhoi crynodeb o'r cyfanswm at income@methodistchurch.org.uk gan ddilyn naill ai Dewis 1 neu Ddewis 2 isod a nodi cyfeirnod ADV001.

Nodir dros y ddalen y gwahanol ffyrdd y gall eglwysi unigol gasglu a danfon rhoddion gan ddefnyddio amlenni casglu Offrwm yr Adfent.



DEWIS 1

Dewis 1 yw'r ffordd orau o ddelio â rhoddion ac fe hoffem i bob eglwys ddilyn y drefn hon os yn bosibl er mwyn hawlio Cymorth Rhodd ar roddion.

A. A. Casglu rhoddion GYDA Chymorth Rhodd

- i. Fel sy'n digwydd gyda chasgliadau arbennig eraill (e.e. All We Can, MHA neu Gymorth Cristnogol) gofynnwch i swyddogion eich eglwysi (Ysgrifenyddion Cymorth Rhodd neu swyddogion cyfatebol) gasglu amlenni casglu Offrwm yr Adfent gydag arian parod neu sieciau ynddynt, wedi'u selio a gyda'r manylion wedi'u llenwi, a gafwyd gan eu cynulleidfau. Yna dylid agor yr amlenni a rhoi'r cyfan i Drysorydd yr Eglwys (neu swyddog cyfatebol) er mwyn bancio'r rhoddion yng nghyfrif banc yr eglwys.
- ii. Wedi i'r eglwys dderbyn a bancio'r rhoddion yng nghyfrif banc yr eglwys, dylai swyddogion yr eglwys (Ysgrifenyddion Cymorth Rhodd neu swyddogion cyfatebol) gadw amlenni gwag Offrwm yr Adfent am chwe blynedd at ddibenion archwilio yn unol â'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion Cymorth Rhodd.

Yna bydd y swyddogion yn cynnwys y rhoddion a fanciwyd ar ffurflen hawlio Cymorth Rhodd eu heglwys, sy'n cael ei chyflwyno i'r Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd*. NI DDYLID anfon yr amlenni Offrwm Adfent gwag at Adran Gyllid Methodist Church House (heblaw os yw'n amhosibl i'ch eglwys hawlio Cymorth Rhodd, gweler Dewis 2).

**Mae Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd yr Eglwys Fethodistaidd yn prosesu hawliadau Cymorth Rhodd ar gyfer tua 4,000 o eglwysi bob blwyddyn, gan adennill tua £10m gan Gyllid y Wlad ar ran yr eglwysi hynny. Ar ôl prosesu'r hawliadau, bydd y Gwasanaeth yn trosglwyddo'r arian Cymorth Rhodd a ad-delir i bob eglwys unigol.*

B. Anfon rhoddion i'r Gronfa Cenhadaeth ym Mhrydain

Pan fydd eglwys wedi casglu a bancio rhoddion Offrwm yr Adfent yng nghyfrif banc yr eglwys, gellir dewis pa un o'r canlynol i'w wneud:

- i. Gall trysorydd yr Eglwys ysgrifennu siec, taladwy i "Gronfa Cenhadaeth ym Mhrydain yr Eglwys Fethodistaidd" am gyfanswm y rhoddion. Bydd angen anfon siec arall pan ad-delir yr arian Cymorth Rhodd. Dylid rhoi'r sieciau i Drysorydd Cronfa Cenhadaeth ym Mhrydain y gylchdaith ac yna dylai ef neu hi fancio'r rhoddion gan ddefnyddio llyfrau talu i mewn Cenhadaeth ym Mhrydain. **Sylwer os gwelwch yn dda mai llyfr talu i mewn newydd a gyflwynwyd yn 2018 yw hwn, sydd yn wahanol i lyfr talu i mewn cyffredinol Cenhadaeth ym Mhrydain, y dylid ei ddefnyddio ar gyfer rhoddion cyffredinol i'r Genhadaeth ym Mhrydain nad ydynt yn rhoddion Offrwm yr Adfent.** Gofynnwch os gwelwch yn dda i'r ariannwr gynnwys cyfeirnod eich cylchdaith yn ogystal â O3 (sydd wedi'i argraffu eisoes ar bob slip talu i mewn) er mwyn helpu'r Adran Gyllid i wybod pa roddion sydd wedi dod drwy Offrwm yr Adfent a'u dyrannu'n gywir i'ch eglwys. A fyddwch cystal â chadarnhau pa gyfanswm a fanciwyd, rhif eich cylchdaith a'r cyfeirnod mewn e-bost at circuit.income@methodistchurch.org.uk.
- ii. Os nad yw eglwysi'n gallu cysylltu â thrysorydd Cronfa Cenhadaeth ym Mhrydain y gylchdaith, gallant anfon siec am gyfanswm y rhoddion yn uniongyrchol i'r Adran Gyllid yn Methodist Church House, gyda llythyr eglurhaol yn nodi'r cyfeirnod ADV001 ynghyd â rhif y gylchdaith i'n helpu i wybod o ble y daw'r rhoddion.


Yr Eglwys **Fethodistaidd**





DEWIS 2

Os na all yr eglwys hawlio Cymorth Rhodd drwy'r Gwasanaeth Swyddfa Cymorth Rhodd NEU os yw sieciau eisoes yn daladwy i Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain, dylech ddilyn Dewis 2. Os bydd eglwysi'n dilyn Dewis 2, ni fydd modd iddynt hawlio Cymorth Rhodd gan na fyddant wedi bancio rhoddion yn eu cyfrifon eu hunain.

A. Casglu rhoddion

Dylai swyddogion yr eglwys (Ysgrifenyddion Cymorth Rhodd neu swyddogion cyfatebol) gasglu'r amlenni casglu Offrwm yr Adfent gydag arian parod neu sieciau ynddynt sydd wedi'u selio a gyda'r manylion wedi'u llenwi, gan y gynulleidfa.

B. Anfon rhoddion i mewn

- i. i. Anfonir y rhoddion (sieciau/arian parod) a'r amlenni Offrwm yr Adfent at Drysorydd Cronfa Cenhadaeth ym Mhrydain y Gylchdaith, a fydd yn bancio'r rhoddion ac yn anfon yr amlenni gwag i'r Adran Gyllid yn Methodist Church House. Mae'n rhaid i'r Trysorydd gynnwys llythyr eglurhaol, gyda'r cyfeirnod ADV001, yn cadarnhau bod y rhoddion wedi cael eu bancio ac ar ba ddyddiad.
- ii. Os nad yw eglwysi'n gallu cysylltu â Thrysorydd Cronfa Cenhadaeth ym Mhrydain y Gylchdaith, gallant anfon sieciau, ynghyd â'r amlenni, yn uniongyrchol i'r Adran Gyllid yn Methodist Church House, 25 Marylebone Road, London NW1 5JR.

Peidiwch ag anfon arian parod i'r Swyddfa Gyllid drwy'r post. Rhowch yr arian yng nghyfrif eich eglwys ac anfonwch siec am yr un swm, yn daladwy i "Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain".

